



wythnos siarad arian

Pecyn Cymorth i Ysgolion

8-12 Tachwedd 2021



Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau




Money &
Pensions
Service

A wyddech?



Mae'r sgiliau sydd eu hangen arnom i reoli ein harian yn dechrau datblygu rhwng tair a saith oed



Mae tua chwarter pobl ifanc 18 i 24 oed yn aml yn benthycu arian i brynu bwyd neu dalu biliau



Mae bron i un o bob pump o bobl ifanc 16 a 17 oed yn teimlo'n bryderus wrth feddwl am eu harian

Mae pobl ifanc sy'n cofio am ddysgu am arian yn yr ysgol yn fwy tebygol o fod ag arferion arian da ac yn teimlo'n hyderus yn rheoli eu harian

 Gadewch i ni **#SiaradArian**

Wythnos #SiaradArian
8-12 Tachwedd 2021

moneyandpensionsservice.org.uk/cy/addysg-ariannol-mewn-ysgolion

wythnos
siarad
arian

talk
money
week



Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau



Money &
Pensions
Service

Dyma becyn cymorth i ysgolion sy'n cynnwys gwybodaeth ac adnoddau i'ch helpu i hyrwyddo lles ariannol eich disgyblion a'ch myfyrwyr, yn ystod Wythnos Siarad Arian a thu hwnt.



Beth yw Wythnos Siarad Arian?

Wythnos Siarad Arian yw'r ymgyrch flynyddol sy'n ceisio cael y genedl i siarad am arian - o arian poced i bensynau.



Pam Siarad Arian yn yr ysgol?

Mae ysgolion a cholegau yn chwarae rhan hanfodol mewn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i reoli eu harian yn dda nawr ac yn nes ymlaen mewn bywyd. Ar yr un pryd, gall addysg ariannol wella'ch cwricwlwm, cryfhau'ch cynnig allgyrsiol a chanolbwyntio ar ymgysylltiad ehangach â'r gymuned leol.



Sut i gymryd rhan?

Rydym yn galw ar bob ysgol a choleg ledled y DU i wneud popeth o fewn eu gallu i helpu'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio â hwy i siarad arian. Darllenwch ymlaen am syniadau ac adnoddau i'ch helpu i ddarparu addysg ariannol o ansawdd yn ystod Wythnos Siarad Arian a thu hwnt.

Mae **C** yn nodi adnoddau neu wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg.

Mae **S** yn nodi adnoddau neu wasanaethau sydd ar gael yn Saesneg yn unig.

Beth ydych yn edrych amdano?



Teclynnau cynllunio



Adnoddau i'ch helpu i gyflenwi yn yr ystafell ddosbarth



Gweithdai, cymwysterau, a hyfforddiant addysg ariannol



Syniadau i ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr





Adnoddau sydd wedi eu teilwra ar gyfer Cymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon




Teclynnau cyfathrebu i'ch helpu i wneud sŵn

Teclynnau cynllunio

Mae'r Fframweithiau Cynllunio Addysg Ariannol, a ddatblygwyd gan Arian Yr Ifanc ac a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, yn nodi'r hyn y gallai fod angen i blant a phobl ifanc ei wybod am arian, ar ba oedran. Ar gael yn Saesneg a Chymraeg, gellir eu defnyddio i gefnogi cynllunio gwersi ac ymgynghori â disgyblion a myfyrwyr ar eu meysydd diddordeb eu hunain.  young-enterprise.org.uk/resources/financial-education-planning-frameworks-welsh-language




Adnoddau i'ch helpu i gyflenwi yn yr ystafell ddosbarth

Mae'r Marc Ansawdd Addysg Ariannol, a ariennir gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, yn helpu athrawon i nodi adnoddau y mae eu hansawdd wedi ei sicrhau ar gyfer eu gwerth addysgol a'u cywirdeb ariannol. Gallwch ddod o hyd i adnoddau â'r Marc Ansawdd ar Hyb Adnoddau Arian Yr Ifanc. Mae cynlluniau gwarsi, taflenni gwaith, fideos a gemau i bob oedran, sy'n ymdrin ag ystod o bynciau arian, gan gynnwys i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol.  young-enterprise.org.uk/teachers-hub/resources


Edrychwch ar yr adnoddau hyn i ddechrau.

Ar draws pob cyfnod ysgol


Barclays LifeSkills

Gwarsi addysg ariannol am ddim, sydd wedi eu cysylltu â'r cwricwlwm, wedi eu teilwra ar gyfer grwpiau oedran rhwng 7 a 18 oed, gan gynnwys adnoddau yn benodol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi profi gofal. Mae'r gwarsi rhyngweithiol yn ymdrin â phynciau o gyllidebu, cynilo, deall anghenion ac eisiau hyd at gydnabod twyll, dehongli slipiau cyflog, a chynllunio ar gyfer annibyniaeth ariannol.  barclayslifeskills.com

Lloyds Bank Academy


Pecynnau sesiwn i helpu i wella sgiliau gallu ariannol a lles plant a phobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed. Mae pob pecyn yn cynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i gynnal sesiynau un i un neu grŵp, ynghyd â chyngor ar gyfer cynnal sesiynau fwy neu lai.  lloydsbankacademy.co.uk/financial-skills/five-sixteen

MoneySense


Rhaglen addysg ariannol am ddim i bobl ifanc 5 i 18 oed o NatWest Group (gan gynnwys NatWest, Royal Bank of Scotland, ac Ulster Bank). Mae'r rhaglen yn cynnwys cefnogaeth i athrawon i helpu eu dosbarth i ddysgu am arian, â chynlluniau gwarsi, taflenni gweithgaredd, fideos a gweithgareddau rhyngweithiol am ddim yn gysylltiedig â'r cwricwlwm ym mhob gwlad yn y DU, gan gynnwys adnoddau gwahaniaethol ar gyfer myfyrwyr ag anghenion ychwanegol.  mymoneysense.com

Ar gyfer ysgolion cynradd

Money & Me

Rhaglen 12 gwarsi sydd wedi ei chynllunio i gyflwyno disgyblion, rhwng 5 ac 11 oed, i'r economi a'r ffordd y mae arian yn gweithio. Mae'r rhaglen yn cynnwys canllaw i athrawon, cynlluniau gwarsi a gemau sy'n cynnwys cymeriadau Beano cyfarwydd mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau am arian.  bankofengland.co.uk/education/education-resources/money-and-me

Money Heroes

Rhaglen am ddim sy'n anelu at ddysgu addysg ariannol i blant rhwng 3 ac 11 oed, gartref ac yn yr ystafell ddosbarth, â chefnogaeth HSBC a'i datblygu gan Arian Yr Ifanc. Mae'r rhaglen yn cynnig gweithgareddau, llyfrau stori, gemau, arweiniad, a hyfforddiant athrawon i helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau ar gyfer dyfodol ariannol llwyddiannus.  moneyheroes.org.uk/teacher-hub



Lifesavers

Adnodd addysg ariannol ar gyfer plant 7 i 11 oed sy'n defnyddio gwerthoedd doethineb, haelioni, a chyfiawnder i archwilio a siapio ymddygiad ariannol, gan gwmpasu gwariant, cynilo, benthyca a rhoi. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig clwb cynilo yn yr ysgol.

lifesavers.co.uk/whatislifesavers

Ar gyfer ysgolion uwchradd

EconoME

Pedair gwrs sydd wedi eu cynllunio i helpu pobl ifanc, rhwng 11 ac 16 oed, i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth economaidd a'r sgiliau dadansoddi i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r rhaglen yn cynnwys cynlluniau gwersi, taflenni gwaith a fideos rhagarweiniol byr gan economegwyr Banc Lloegr. ©

bankofengland.co.uk/education/econome

The London Institute of Banking and Finance

Adnoddau addysg ariannol am ddim ar gefndir arian a sut i reoli cyllid personol, gan gynnwys treth, cynilion, benthyciadau, benthyca a mwy. ©

libf.ac.uk/study/financial-education/free-financial-education-resources

Mae'ch Arian O Bwys

Gwerslyfr addysg ariannol Arian Yr Ifanc ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, â gwybodaeth a gweithgareddau ar wario a chynilo, benthyca, dyled, yswiriant, cyllid myfyrwyr a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae rhifynnau pwrpasol ar gyfer holl genhedloedd y DU, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Young Enterprise Scotland a Young Enterprise Gogledd Iwerddon, ac mae ar gael yn Gymraeg. ©

young-enterprise.org.uk/your-money-matters-cymru

Gallwch hefyd gael syniadau ac arweiniad gan gymdeithasau pwnc perthnasol. Er enghraifft:

- The PSHE Association yw'r corff cenedlaethol ar gyfer addysg personol, gymdeithasol, iechyd, ac economaidd (PSHE) – pwnc y cwricwlwm sy'n ymwneud â lles economaidd, perthasoedd, iechyd, a gyrfaedd – gan gefnogi ysgolion ac athrawon ag adnoddau hyfforddiant, cyngor, ac arweiniad.


pshe-association.org.uk

- Mae'r Association for Citizenship Teaching (ACT) yn darparu cyngor hyfforddiant, cynadleddau ac adnoddau i gefnogi darparu addysg Dinasyddiaeth o safon, sy'n cynnwys dysgu addysg economaidd ac ariannol.
- teachingcitizenship.org.uk


Gweithdai, cymwysterau, a hyfforddiant addysg ariannol

Gall arbenigwyr addysg ariannol ddarparu cefnogaeth ychwanegol i chi, gan ddarparu gweithdai neu gymwysterau i'ch myfyrwyr yn ogystal â hyfforddiant athrawon. Gall rhai sefydliadau eich cysylltu â gwirfoddolwyr yn eich cymuned leol. Cymerwch gip ar yr hyn sydd gan y darparwyr hyn i'w gynnig:


MoneySense from NatWest Group

Gweithdai dan arweiniad athrawon i helpu pobl ifanc 5 i 18 oed i ddysgu am arian, â chymorth fideo gan wirfoddolwr sy'n weithiwr banc.  mymoneysense.com


MyBnk

Amrywiaeth o raglenni addysg ariannol ar gyfer pobl 5 i 25 oed, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol, sy'n anelu at ddod ag arian i fyw a helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus. Mae gweithdai yn ymwneud â chynilo, cyllidebu, dyled, byw'n annibynnol, a chyllid cyhoeddus a myfyrwyr.  mybnk.org/our-work/financial-education


Santander MoneyWise

Gweithdai rhyngweithiol awr o hyd i helpu pobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ariannol, dan arweiniad gwirfoddolwyr gweithwyr banc i fyfyrwyr rhwng 8 a 19 oed. I ddarganfod mwy neu archebu gweithdy, cysylltwch â community@santander.co.uk. 


The Money Charity Workshops

Gweithdai rhyngweithiol ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed, i'w cyflwyno mewn ysgolion a cholegau. Mae'r gweithdai yn ymdrin â hanfodion aros ar ben arian, gan gynnwys defnyddio arian i gyflawni nodau, cynilion, treth, sut i ddarllen slip cyflog, a deall cynhyrchion credyd ac ariannol.  themoneycharity.org.uk/workshops-training/schools-colleges

The London Institute of Banking and Finance

Amrywiaeth o gymwysterau Lefel 1 i 3 a rhaglenni e-ddysgu i helpu myfyrwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol, i wella'u gwybodaeth a'u hyder ariannol.  libf.ac.uk/study/financial-education/qualifications

Arian Yr Ifanc

Hyfforddiant a chyngor addysg ariannol i athrawon ac ymarferwyr eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio â phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig.  young-enterprise.org.uk/wales-pathfinder

Syniadau i ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr

Gall rhieni a gofalwyr helpu eu plant a'u pobl ifanc i ddatblygu sgiliau ac arferion arian da. Anogwch gymuned eich ysgol i siarad arian gartref a rhannu adnoddau a all helpu.

Awgrymiadau **HelpwrArian** ar sut i siarad arian gyda phlant a phobl ifanc o bob oedran. [C moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/talk-money/how-to-talk-to-your-children-about-money](https://moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/talk-money/how-to-talk-to-your-children-about-money)

Gweithgareddau **Money Heroes**, llyfrau stori a gemau i helpu i ddysgu addysg ariannol i blant rhwng 3 ac 11 gartref. [S moneyheroes.org.uk/parent-hub](https://moneyheroes.org.uk/parent-hub)

MoneySense for parents, â gweithgareddau, gemau a fideos ar gyfer plant 5 i 18 oed o NatWest Group (gan gynnwys NatWest, Royal Bank of Scotland ac Ulster Bank). [S mymoneysense.com](https://mymoneysense.com)

MyBnk's Family Money Twist, cwrs dysgu annibynnol ar-lein am ddim sy'n dysgu pethau sylfaenol am arian i blant rhwng 7 ac 11 oed wrth osod arferion arian cadarnhaol. [S learning.mybnk.org/courses/family-money-twist-years-3-6](https://learning.mybnk.org/courses/family-money-twist-years-3-6)



Adnoddau sydd wedi eu teilwra ar gyfer Cymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon

Mae adnoddau penodol ar gael i ysgolion yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon.

Cymru

E-ddysgu addysg ariannol i athrawon

E-ddysgu am ddim, ar gael yn y Gymraeg a Saesneg, ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gweithio â dysgwyr rhwng 9 a 12 oed, gan eu helpu i gryfhau darpariaeth a gwneud cysylltiadau â Chwricwlwm Cymru. Datblygwyd gan Arian Yr Ifanc mewn partneriaeth â chonsortia addysg rhanbarthol ac athrawon yng Nghymru, â chefnogaeth gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. ©

young-enterprise.org.uk/wales-pathfinder

Money Mapping

Adnodd addysg ariannol ar gyfer plant 9 i 12 oed, ar gael yn y Gymraeg a Saesneg, a ddatblygwyd gan Arian Yr Ifanc mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Yn unol â Chwricwlwm Cymru, mae'r adnodd yn defnyddio cyd-destunau bywyd go iawn ac yn ymdrin â nifer o themâu ariannol. ©

young-enterprise.org.uk/resources/money-mapping

Hwb

Dewch o hyd i offer a deunyddiau addysg ariannol am ddim yn y Gymraeg a Saesneg ar Hwb Llywodraeth Cymru. ©

hwb.gov.wales

Yr Alban

Canllawiau addysg ariannol i ysgolion cynradd ac uwchradd

Wedi ei anelu at arweinwyr ysgolion, arweinwyr pwnc, a llunwyr penderfyniadau addysg eraill, mae canllawiau'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng addysg ariannol a'r Cwricwlwm Rhagoriaeth, yn nodi sut y gall ysgolion wella'r addysg ariannol y maent yn ei darparu, ac yn cyfeirio at wasanaethau ac adnoddau a all helpu. ©

maps.org.uk/2020/11/17/financial-education-in-scotland

Education Scotland

Gallwch ddod o hyd i adnoddau addysg ariannol i ysgolion yn yr Alban ar y National Improvement Hub. ©

education.gov.scot/improvement/practice-exemplars/fined3-financial-education-resources

Young Enterprise Scotland 'Scotland's Financial Schools'

'Siop un stop' ag arweiniad, teclynnau ac adnoddau i helpu ymarferwyr o'r blynyddoedd cynnar hyd at y cyfnod hŷn yn ymgorffori addysg ariannol yn eu hymarfer. Gan gynnwys dolenni i adnoddau a gweithdai, cynlluniau gwersi newydd 'Grab and Go' a Scottish Progression Pathway sy'n cysylltu addysg ariannol yn uniongyrchol â'r Cwricwlwm Rhagoriaeth. ©

yes.org.uk/financial-education.php



Money Advice Scotland

Mae Money Advice Scotland yn darparu ystod eang o adnoddau a gweithdai rhyngweithiol ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd (P3-P7) ac ysgolion uwchradd (S1-S6), gan drafod gwahanol bynciau arian. Mae sesiynau'n cael eu mapio i ganlyniadau'r Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth.

S

moneyadvicescotland.org.uk/for-educators

Gogledd Iwerddon

Microwefan Gallu Ariannol CCEA

Mae'r wefan hon yn arfogi athrawon â'r wybodaeth a'r adnoddau addysgol y bydd eu hangen arnynt i gyflwyno gwersi effeithiol mewn rheoli arian personol, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. S

nicurriculum.org.uk/curriculum_microsite/financial_capability

Young Enterprise NI

Mae Young Enterprise NI yn gweithio'n agos â MaPS a CCEA i gefnogi addysg ariannol trwy'r brand Arian Yr Ifanc. Mae'r elusen yn darparu rhaglenni addysg ariannol ar lefel gynradd ac ôl-gynradd, gan gynnwys adnoddau athrawon trwy wefan Arian Yr Ifanc, a darparu rhaglenni uniongyrchol/digidol. S

yeni.co.uk/programme-delivery

Gwneud sŵn

Gall y teclynnau hyn eich helpu i rannu'r gwaith rydych yn ei wneud i siarad arian â'ch disgyblion a'ch myfyrwyr.

Ymuno â'r sgwrs

- Rhannwch eich gweithgareddau addysg ariannol ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod #SiaradArian fel y gall eraill ddathlu'ch gwaith.
- Lawrlwythwch a rhannu'n graffig Wythnos Siarad Arian.
- Gallwch argraffu tudalen 2 o'r pecyn hwn a'i ddefnyddio fel poster ar gyfer eich ystafell ddosbarth, ystafell staff neu swyddfa ysgol

Templed Trydaru

A wyddech fod arferion arian plant eisoes yn ffurfio erbyn 7 oed? Dyna pam yr wythnos hon rydym yn dathlu Wythnos #SiaradArian erbyn [ychwanegwch fanylion gweithgareddau].



Cynnwys a awgrymir ar gyfer gwefan neu gylchlythyr eich ysgol

Yr Wythnos Siarad Arian hon (8fed i 12fed Tachwedd), byddwn yn [nodwch y gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer eich ysgol]. Ond a wyddech fod llawer y gall rhieni a gofalgwyr ei wneud i helpu'ch plant i feithrin sgiliau arian da ar gyfer y dyfodol? Gallwch gael sgwrs am wario neu gynilo, rhoi arian poced (beth bynnag yw'r swm), neu roi cyfle i'ch plentyn ymarfer gwneud penderfyniadau am wario wrth i chi siopa. Cymerwch gip ar yr awgrymiadau ar wefan HelpwrArian a gefnogir gan y llywodraeth ar sut i Siarad Arian â'ch plentyn. moneyhelper.org.uk/en/family-and-care/talk-money/talking-about-money



Money & Pensions Service

Am y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yn gorff hyd braich o Lywodraeth y DU sy'n gweithio i wella'r ddarpariaeth addysg ariannol yn yr ysgol, gartref ac yn y gymuned. Mae MaPS yn arwain y gwaith o ddarparu Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol, sy'n cynnwys nod o ddwy filiwn yn fwy o blant a phobl ifanc yn y DU yn derbyn addysg ariannol ystyrlon erbyn 2030. Darganfyddwch fwy am ein gwaith ar moneyandpensionservice.org.uk/cy/addysg-ariannol-mewn-ysgolion.



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**



**Money &
Pensions
Service**